

Grid Gweithredu – mis Mehefin 2018
Cyngor Datblygu'r Economi

Cyfeirnod yn y Nodiadau	Gweithredu	Hynt y Gwaith	Statws
Camau'n codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2017			
1.3	Swyddogion i sicrhau bod "Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol" yn eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Cyngor ym mis Hydref.	Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod ar 12 Hydref.	Wedi'i gwblhau
2.6	Swyddogion i baratoi Cylch Gorchwyl a sefydlu gweithgor o blith aelodau'r Cyngor i drafod effaith y trefniadau pontio Ewropeaidd ar fusnesau.	Mae Gweithgor y Cyngor ar Ymadael â'r UE wedi'i sefydlu a chynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ar 4 Hydref, o dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith.	Wedi'i gwblhau
2.12	Gweinidogion Cymru i ysgrifennu at y Gwir Anrhydeddus David Davis AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE, i'w wahodd i un o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol.	Ysgrifennodd y Prif Weinidog at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE ar ôl y cyfarfod a'i wahodd i'r cyfarfod ar 12 Hydref neu i alw cyfarfod arbennig ar ddyddiad a fyddai'n gyfleus iddo. Er gwaethaf dau alwad ffôn arall gan Swyddfa'r Prif Weinidog nid oedd ymateb ffurfiol wedi dod i law erbyn 11 Mehefin 2018.	Yn parhau
3.6	Paul Byard i rannu'r papur y mae wrthi'n ei baratoi am Fargeinion Dinesig gyda'i aelodau yn un o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol.	Mae papur drafft cychwynnol Paul Byard wedi'i rannu gydag Aelodau'r Cyngor.	Wedi'i gwblhau
Camau'n codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2017			
2.26	Swyddogion i rannu Adroddiad yr Athro Max Munday â'r aelodau. Roedd yr adroddiad hwn yn ystyried effaith ymadael â'r UE ar gwmnïau mawr a chanolig yng Nghymru.	Cafodd fersiwn gryno o'r adroddiad ei rhannu ag aelodau'r Gweithgor Ymadael â'r UE. Mae'r adroddiad llawn bellach wedi'i wirio gyda'r busnesau a fu'n rhan o'r gwaith ac mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi ar ddechrau mis Chwefror. Cafodd yr adroddiad ei anfon at aelodau'r Cyngor ar 2 Chwefror 2018.	Wedi'i gwblhau

Cyfeirnod yn y Nodiadau	Gweithredu	Hynt y Gwaith	Statws
5.3	Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth y byddai'n trefnu bod y pamffled ar y fasnachfaint rheilffyrdd newydd yn cael ei anfon at aelodau'r Cyngor.	Cafodd y pamffled ei anfon at aelodau'r Cyngor ar 20 Tachwedd 2017.	Wedi'i gwblhau
Camau'n deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2018			
	Nid oedd unrhyw gamau'n deillio o'r cyfarfod hwn.	Amherthnasol	Amherthnasol